



# Road Safety Wales

# Diogelwch Ffyrdd Cymru

# Low Down

## Dros £100 miliwn i wella trafndiaeth gyhoeddus a hyrwyddo twf economaidd

Mae Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth, wedi cyhoeddi bod dros £100 miliwn yn cael eu buddsoddi i wella trafndiaeth gyhoeddus a hyrwyddo twf economaidd.

Cafodd 22 awdurdod lleol Cymru eu gwahodd i gyflwyno cynigion i Lywodraeth Cymru er mwyn iddynt gael mynd ati i wella trafndiaeth leol yn eu hardaloedd mewn ffordd a fydd o gymorth i wireddu'r blaenoriaethau a'r amcanion yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru - Llwybr Newydd.

Dyma rai o'r blaenoriaethau hynny:

- Mynd i'r afael ag achosion o dywydd garw yn tarfu ar y rhwydwaith priffyrdd
- Gwella diogelwch ar y ffyrdd
- Darparu llwybrau cerdded a beicio
- Gwella amseroedd teithio ar fysiau a gwella cyfleusterau aros
- Darparu seilwaith gwefru cerbydau trydan fydd ar gael i'r cyhoedd

Mae'r cymorth sylweddol hwn, y bwriedir iddo helpu cynghorau lleol i wella trafndiaeth yn eu hardal, yn cynnwys cyllid ar gyfer teithio llesol a llwybrau diogel, diogelwch ar y ffyrdd, cyfleusterau gwefru cerbydau trydan, gwella gallu ffyrdd i ymdopi â thywydd garw, trafndiaeth leol, a ffyrdd heb eu mabwysiadu.

Dyweddodd Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth: "Mae'r grantiau 'ma'n fuddsoddiad sylweddol i gefnogi twf cynaliadwy yn yr economi leol, i wella cyfleusterau trafndiaeth gyhoeddus, ac i greu a gwella llwybrau a fydd yn galluogi ac yn annog rhagor o bobl Cymru i gerdded a beicio."

Mae rhestr o'r holl brosiectau rydym yn eu hariannu, yn ôl awdurdod lleol, ar gael ar ein wefan.

### YN Y RHIFYN HWN:

Dros £100 miliwn i wella trafndiaeth gyhoeddus a hyrwyddo twf economaidd Ymgyrch Ugain  
Cyhoeddi y Cynllun Cyflenwi Teithio Llesol Hwb o £1m i rwydwaith o glybiau ceir ar gyfer cysylltu cymunedau gwledig Gall gwisg o safon arbed eich croen Gyrru heb yswiriant



## Ymgyrch Ugain



Mae GanBwyll a heddluoedd Cymru'n defnyddio ymagwedd sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu tuag at 20mya. Y flaenoriaeth yw hysbysu'r cyhoedd. Ddydd Llun 8 Ionawr 2024, lansiodd 'Ymgyrch Ugain' er mwyn cyflwyno ymgysylltu ymyl ffordd ledled Cymru.

Bydd GanBwyll, Heddluoedd Cymru a Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru'n canolbwyntio ar ymgysylltu â chymunedau mewn ardaloedd lle mae'r terfyn cyflymder wedi newid o 30mya i 20mya. Y nod yw helpu gyrwyr i addasu i'r newid.

Mae Ymgyrch Ugain yn defnyddio offer monitro cyflymder i adnabod pobl sy'n teithio'n gynt na'r terfyn cyflymder, cyn i swyddogion heddlu stopio'r cerbyd a rhoi dewis i'r gyrwr o ymgysylltu ymyl ffordd neu bwyntiau a dirwy. Tra bydd gyrwyr yn cael cynnig yr ymgysylltu am ddim fel dewis amgen, gallant wrthod, a fydd yna'n arwain at erlyniad. Ni fydd y rhai sy'n gyrru llawer cynt na'r terfyn cyflymder yn gymwys ar gyfer sesiwn ymgysylltu, a byddant yn cael eu herlyn.

Os yw gyrwyr yn dewis yr ymgysylltu, bydd Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru'n rhoi cyflwyniad am ddim sy'n para tua 10 munud. Mae'n anelu i hysbysu pobl am y newid i'r terfyn cyflymder diodyn, y rhesymau dros y newid, a sut y gallant adnabod y ffyrdd mae'n berthnasol iddynt.

Mae sesiynau ymgysylltu eisoes wedi'u cynnal gan GanBwyll, Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru, Awdurdodau Lleol a Heddluoedd Cymru cyn lansio Ymgyrch Ugain. Bydd y timoedd arbennig newydd yn caniatáu ar gyfer cynnydd o ran gweithgarwch ymgysylltu.

## Llywodraeth Cymru Datganiad Ysgrifenedig: Cyhoeddi y Cynllun Cyflenwi Teithio Llesol

Mae ymrwymiad yn ein Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol, y Cynllun Cyflawni Teithio Llesol yn nodi'n fanylach sut y byddwn ni a'n partneriaid cyflenwi yn gweithredu'r ymrwymadau teithio llesol yn Llwybr Newydd a'r NTDP.

Nod y Cynllun Cyflawni Teithio Llesol yw cynyddu newid moddol trwy wneud teithio llesol yn haws cael mynediad ato, yn fwy deniadol i'w ddefnyddio ac yn fwy cynhwysol. Mae yn rhoi manylion y prif gamau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r nod hwn ar draws ein pedwar maes cyflawni allweddol:

**Arwain y newid** - Er mwyn cyflawni'r newid mawr hwn mae angen arweinyddiaeth glir a chyson. Mae ein cynllun yn nodi sut y byddwn yn darparu hyfforddiant ac adnoddau i'n harweinwyr.

**Cynyddu ein darpariaeth** — Byddwn yn darparu rhaglenni strategol newydd i wneud y mwyaf o'r gallu a'r capasiti i gyflwyno cynlluniau o ansawdd uchel a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar y nifer sy'n manteisio ar deithio llesol.

**Dangos beth all teithio llesol ei gyflawni** — Byddwn yn cyflwyno rhaglen o weithgareddau i ddangos y manteision y gall buddsoddi mewn teithio llesol eu sicrhau.

**Gwneud teithio llesol y dewis cyntaf ar gyfer mwy o deithiau** — Byddwn yn parhau i flaenoriaethu buddsoddiad mewn teithio llesol i'n galluogi i gyflwyno rhaglen gynhwysfawr, creu'r amgylchedd cywir a darparu'r sgiliau a'r wybodaeth ar gyfer mwy o deithiau trwy deithio llesol.





## Hwb o £1m i rwydwaith o glybiau ceir ar gyfer cysylltu cymunedau gwledig

Y Llywodraeth Cymru buddsoddi £1m i greu rhwydwaith o glybiau ceir ar gyfer cysylltu cymunedau gwledig.

Daw'r cam fel rhan o gynlluniau i gyrraedd targedau uchelgeisiol ar gyfer lleihau allyriadau carbon gyda'r nod o sicrhau bod trafndiaeth gyhoeddus, teithiau cerdded a beicio yn cyfrif am 45% o deithiau erbyn 2040.

Maen cyhoeddiad yn adeiladu ar gamau y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi'u cymryd i wella hygyrchedd o fewn cymunedau gwledig, fel y gwasanaeth bws Fflecsi, sy'n ymateb i'r galw.



Bydd y cynlluniau ar gyfer clybiau ceir, sy'n darparu ffordd hawdd a fforddiadwy i bobl rannu manteision defnyddio car, heb y gost o fod yn berchen ar un, yn cael eu gweithredu mewn cymunedau gwledig ledled Cymru gan gynnwys y Drenewydd, Llanidloes, Y Trallwng, Machynlleth, Crymym, Cwmllynfell, Cilgeti, Llanymddyfri a Llandrindod.

Er mwyn cyrraedd targedau o ran allyriadau carbon cyfreithiol, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i sicrhau bod trafndiaeth gyhoeddus, teithiau cerdded a beicio yn cyfrif am 45% o deithiau erbyn 2040 (i fyny o 32% yn 2021).

Bydd cyflawni hyn mewn ardaloedd gwledig yn gofyn am ddull gwahanol i'r hyn a fydd yn cael ei wneud yn y rhan fwyaf o ardaloedd trefol. Mae clybiau ceir yn ffordd hawdd a fforddiadwy i bobl rannu'r defnydd o gar heb y costau sydd ynghlwm wrth fod yn berchen ar un.

## Gall gwisg o safon arbed eich croen

Yr hyn rydych yn ei wisgo pan fyddwch allan ar y beic yw eich unig amddiffyniad yn erbyn anaf petai'r gwaethaf yn digwydd.

P'un ai ydych yn cymudo neu mas am dro, ar sgwter neu feic chwaraeon. Gall llithriad byr ar darmac rwygo dillad a'r croen hyd at yr asgwrn.

Gall gwisg o safon arbed eich croen, sicrhewch fod y dillad yn ffitio ac yn gysurus i'w gwisgo ac nid ydynt yn cyfyngu obeith symudiad. Helpwch ddefnyddwyr ffyrdd eraill i'ch gweld, felly ystyriwch ddillad fflworoleuol yn ystod y dydd a deunydd adlewyrchol yn y nos.

Gall fod yn demtasiwn i arbed arian ar eich dillad ar ôl gwario llawer o arian ar eich beic motor, ond yr hyn rydych yn ei wisgo yw'r unig beth sy'n eich amddiffyn rhag anaf os bydd rhywbeth anffodus yn digwydd. Bydd dillad beic modur yn eich amddiffyn chi rhag y gwlypter a'r oerfel ac, yn ogystal â hyn, gallai wneud y gwahaniaeth rhwng dioddef cnociau a chleisiau a chael anafiadau a allai eich atal rhag beicio eto.

Pan fyddwch yn dewis dillad, chwiliwch am ddeunyddiau sy'n atal crafiadau, megis lledr, yn ogystal â phadin neu wisg amddiffynnol er mwyn atal anafiadau mewn gwrthdrawiad. Gwiriwch hefyd fod y dillad yn ddwrglos neu a fydd angen prynu haenau dwrglos ychwanegol. Bydd dillad fflworoleuol ac adlewyrchol hefyd yn eich gwneud yn fwy gweladwy i yrwyr.

Y peth cyntaf rydych yn ei wneud yw rhoi eich dwylo allan i amddiffyn eich hun – mae'n rhywbeth greddf. Mae pâr da o fenig yn hanfodol drwy gydol y flwyddyn. Byddant yn amddiffyn eich dwylo rhag yr oerfel, y gwlypter ac anaf os byddwch yn cwmpo oddi ar y beic.

Eich helmed yw rhan bwysicaf eich cit, felly ymchwiliwch i'ch pryniad yn drylwyr. Darllenwch adolygiadau helmed, gofynnwch i'ch ffrindiau am argymhellion ac yn bendant ewch i wefan SHARP, lle byddwch yn dod o hyd i gyfoeth o wybodaeth am adolygiadau diogelwch helmed, sut i ofalu am eich helmed, ac am bwysigrwydd cael y ffit cywir i chi.

Mae gwisgo'r cit cywir yn gallu achub bywydau. Gobeithio a fydd rhaid i chi ddibynnu arno byth, ond mae cit cadarn yn gallu achub eich bywyd.



# Heddluoedd o Gymru i Lundain yn cydweithio i fynd i'r afael â gyrru heb yswiriant

Yn y Gwanwyn, bu pump o heddluoedd yn cydweithio yn yr ymgyrch gyntaf o'i math, gan fynd i'r afael â gyrru heb yswiriant ar hyd yr M4 o Lundain i Abertawe.



Mae menter yr MIB (Swyddfa'r Yswirwyr Moduron) yn gweithio ochr yn ochr â swyddogion o Heddlu De Cymru, Gwent, Avon a Gwlad yr Haf, Wiltshire, a Dyffryn Tafwys wedi gweld cerbydau heb yswiriant yn cael eu hatafael ar hyd y darn 170 milltir o gerbyttfordd yr M4.

Yn anffodus, nid mater sy'n digwydd ar ei ben ei hunan yw gyrru heb yswiriant. Drwy stopio'r cerbydau, cafodd dros chwarter yr achosion hyd i droseddau eilaidd, gan gynnwys cerbydau wedi'u dwyn a throeddau cyffuriau.

Hon oedd y gyntaf mewn cyfres o ymgyrchoedd undydd aml-lu ar draws traffyrdd y Deyrnas Unedig, dan arweiniad yr MIB, sef yr endid yn y Deyrnas Unedig sy'n bodoli i amddiffyn pobl rhag dinistr gyrwyr heb yswiriant a gyrwyr sy'n taro a ffoi. Helpodd yr MIB yr heddluoedd er mwyn caniatáu i adnoddau pwrrpasol ar ffurf swyddogion ychwanegol, cerbydau wedi'u marcio, camerâu ANPR, gweithredwyr ystafelloedd rheoli a staff cudd-wybodaeth i gael eu defnyddio.

Er mwyn cefnogi pob un o'r heddluoedd, sef y rhai cyntaf i redeg ymgyrch aml-lu gyda chymorth yr MIB gan ganolbwyntio ar yrru heb yswiriant, ymunodd swyddogion cyswllt gorfodi'r gyfraith o'r MIB â swyddogion ar ochr y ffordd. Roedd hyn yn gyswllt uniongyrchol â'r MID ac â Llinell Gymorth Heddlu'r MIB, gan gyflymu'r broses o gadarnhau statws y cerbydau o safbwynt yswiriant.

Dyweddodd yr Uwch-arolygydd Ryan Francis, o Heddlu Gwent: "Rydyn ni wrth ein bod dyn cael cefnogaeth yr MIB, a gweithio gyda gwasanaethau eraill yr M4, wrth fynd i'r afael â mater sy'n cyrraedd yn llawer pellach na'r hyn welwch chi ar y wyneb. Rydym ni'n gwybod y byddwn ni, trwy ein hymdrechion heddiw, wedi stopio cerbydau wedi'u dwyn a cherbydau wedi'u clonio, unigolion â gwarantau llys yn eu herbyn, a gyrwyr anghymwys, ochr yn ochr â nodi troeddau traffig eraill sy'n peri risg. Mae'r dull cydweithredol yma yn rhoi ffocws a sylw i broblem ddifrifol iawn ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig."

Dyweddodd yr Uwch-arolygydd Colin Hudson, Pennaeth Plismona Ffyrdd Heddlu Dyffryn Tafwys a Heddlu Hampshire: "Yn anffodus, mae rhai unigolion yn dal i yrru heb yswiriant digonol, gan beryglu defnyddwyr ffyrdd diniwed. Trwy ddefnyddio'r gudd-wybodaeth a'r data o Ymgyrch Tutelage a'r MIB, rydym ni wedi llwyddo i waredu nifer o gerbydau peryglus o'r ffyrdd yn yr ymgyrch yma."

Dyweddodd y Prif Gwnstabl Jo Shiner, Heddlu Sussex, Arweinydd Plismona Ffyrdd yr NPCC: "Mae mynd i'r afael â throeddau yn dal yn flaenoriaeth ddyddiol i bob heddlu, ond pan fydd mentrau fel 'Ymgyrch M4' yn cael eu defnyddio ar ein ffyrdd, mae modd weld sut mae cydweithio yn achub bywydau."

Mae'r MIB wrthi eisoes yn ystyried ymgyrchoedd cydweithredol at y dyfodol ar rwydweithiau ffyrdd mawr eraill y Deyrnas Unedig, a hynny fel rhan o'u buddsoddiad o £5 miliwn i leihau gyrru heb yswiriant.

Dyweddodd Martin Saunders, Pennaeth Gorfodi'r MIB: "Rydym ni'n gwybod bod yr holl flaenoriaethau yn bwysig i'n cydweithwyr yn yr heddlu. Er ein bod ni'n gweithio gyda'r heddlu gydol y flwyddyn, mae helpu heddluoedd i ddynodi amser i ganolbwyntio ar yrru heb yswiriant yn fodd i fynd i'r afael â'r mater yma yn uniongyrchol mewn ffordd sydd wedi'i thargedu. Rydym ni'n gwybod y bydd y buddion yn cael eu teimlo'n eang ar draws holl wahanol ardaloedd yr heddluoedd a'r gymuned, gan wneud yr M4 a'r ardaloedd cyfagos yn fwy diogel."

Dim ond un ffordd arall yw'r ymgyrchoedd aml-lu hyn, mewn ystod ehangach o fentrau, lle rydym ni'n sicrhau nad oes gan y rhai sy'n torri'r gyfraith unman i guddio."